Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

# Llys Elian

Llys Elian, Groes Road, Bae Colwyn, LL29 8RA

01492577773

**Dyddiad(au) yr ymweliad(au) arolygu):**
**9 Ebrill 2025**

09/04/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 27 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n rhaid gwella hyn. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae Llys Elian yn darparu amgylchedd croesawgar a chartrefol i'r bobl. Dywedodd y bobl eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd a'r cyfleusterau a ddarperir yn y cartref. Dywedodd teuluoedd y bobl bod cyfathrebu da gan y cartref a'u bod yn cael gwybodaeth reolaidd am ofal eu perthynas. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn dweud eu bod yn falch bod y bobl wedi'u lleoli yn y cartref a bod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod y bobl yn cael adolygiadau gofal iechyd mewn modd amserol i'w cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael cynnig bwydlen amrywiol a gwnaethant ddweud wrthym fod y bwyd yn y cartref yn dda. Mae'r staff gofal yn rhoi gofal mewn modd sensitif, heb ruthro a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt amser i ofalu am y bobl yn briodol. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth i'w helpu yn eu rôl a gwnaethant ddweud wrthym fod yr uwch-aelodau o staff yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Mae trefniadau da ar waith ar gyfer rhoi a storio meddyginiaethau a chânt eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau arferion diogel.

## Canfyddiadau:

**Llesiant** Da

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau. Gwelsom o'r cynlluniau personol; fod gofal y bobl yn cael ei gynllunio yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Gwelsom y bobl yn cael eu trin yn garedig ac mewn ffordd barchus. Dywedodd aelod o deulu un person wrthym wrth sôn am y gwasanaeth, "*excellent care, people have care tailored to their personal needs."* Dywedodd perthynas un person wrthym fod y cartref yn helpu'r bobl i fynd i apwyntiadau arbenigol er mwyn cynnal eu hiechyd. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gynlluniau personol a gwelsom dystiolaeth fod y bobl yn cael sylw meddygol mewn modd amserol pan fo angen. Mae cynlluniau'r bobl yn cynnwys ciplun ohonynt fel unigolion, gan nodi'r drefn arferol a ffefrir ganddynt, eu hobïau, a'r bobl sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu dewis pryd i godi, pryd i fynd i'r gwely a beth yr hoffent ei wneud yn ystod y dydd. Ar y cyfan, gall y bobl gael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, mae adloniant a llenyddiaeth Gymraeg ar gael iddynt, ac mae arwyddion dwyieithog yn y cartref. Mae'r cartref yn cynnig bwydlen amrywiol a gall gefnogi pobl sy'n dilyn deietau arbennig. Gall y bobl gael diodydd a byrbrydau fel y mae eu hangen arnynt.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom gofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant a diweddariadau mewn perthynas â diogelu. Gall y staff gofal ddisgrifio'r broses ar gyfer diogelu'r bobl pe bai problem yn codi. Mae gan y gwasanaeth bolisi chwythu'r chwiban cyfredol i gefnogi a rhoi arweiniad i'r staff os bydd angen iddynt roi gwybod am arferion gofal neu faterion sy'n peri pryder. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau yn briodol ac mewn modd amserol. Dywedodd perthynas un person wrthym fod y staff gofal yn cyfathrebu'n dda ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cartrefol sy'n cefnogi eu canlyniadau dymunol. Mae'r cartref yn lân ac yn agored ac mae amgylchedd croesawgar. Dywedodd perthynas un person wrthym, "*such a lovely care home, clean, fresh and welcoming."* Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig iddynt a'u gwneud yn gartrefol. Mae lolfa a chegin fach/ ardal fwyta ar gael i bob person. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau bod yn y lolfeydd a sgwrsio â'r bobl eraill. Mae'r coridorau a'r ystafelloedd cymunedol yn daclus, a gall y bobl gerdded o gwmpas yn hwylus. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n barhaus yn yr ardaloedd awyr agored er mwyn i'r bobl allu eistedd y tu allan pan fydd y tywydd yn braf.

## Gofal a Chymorth **Da**

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu arferion da o ran personoli gofal a chofnodi dewisiadau ac anghenion gofal y bobl. Mae'r cynlluniau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a phan fydd cyflyrau'r bobl newid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol i'w hanghenion. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol a chaiff unrhyw gyfarwyddiadau eu cofnodi'n ofalus. Gwnaeth gweithiwr cymdeithasol ganmol y gwasanaeth gan ddweud ei fod yn lleoliad da i'r bobl ac yn cynnig parhad gofal ac urddas rhagorol. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym fod y gofal yn y cartref yn dda a'u bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gânt. Mae'r cyfarpar arbenigol sydd ei angen i ofalu am y bobl ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n dda. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y bobl i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n addas at y diben. Mae'r rotas gwaith yn adlewyrchu parhad gofal i'r bobl gan staff gofal rheolaidd. Gwelsom fod y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda a'u bod yn gallu diwallu eu hanghenion mewn modd sensitif.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod yn briodol i'r awdurdodau am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau diogelwch ac urddas y bobl. Mae gan bob un o'r bobl weithiwr allweddol sy'n rhoi'r amser iddynt godi unrhyw bryderon. Dywedodd perthynas un person wrthym fod y staff gofal yn dod o hyd i ddatrysiadau yn gyflym mewn ymateb i bryderon y bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfforddus. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer y bobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu helpu i symud yn ddiogel ac i leihau achosion o gwympo. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff gofal er mwyn sicrhau prosesau rheoli heintiau da yn y cartref. Mae'r staff cadw tŷ yn cadw'r cartref yn lân er mwyn sicrhau bod y bobl yn gyfforddus a lleihau'r risg o haint. Mae gan bob unigolyn Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP), er mwyn i bawb allu gadael y cartref yn ddiogel os bydd tân neu argyfwng.

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel yn y cartref. Gwelsom arferion da ar gyfer storio, archebu a gwaredu meddyginiaethau. Mae'r cofnodion meddyginiaeth yn gyflawn, ac mae'r staff gofal yn dangos arferion da wrth roi meddyginiaethau i alluogi'r bobl i gael gofal diogel. Mae asesiadau risg ar waith i'r bobl sy'n cymryd meddyginiaethau eu hunain a chânt eu hadolygu gan y Meddyg Teulu. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant, diweddariadau a phrofion cymhwysedd rheolaidd mewn perthynas â meddyginiaethau er mwyn galluogi arferion da. Mae meddyginiaethau yn cael eu harchwilio yn y cartref a chaiff y canlyniadau eu rhannu â'r staff er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

**Da**

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd priodol a chartrefol sy'n diwallu eu hanghenion. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd a dewis y décor i'w gwneud yn gartrefol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd a'r cyfleusterau yn y cartref. Mae'r cartref yn lân, yn agored ac yn gartrefol. Mae'r coridorau yn daclus ac mae'r ardaloedd cymunedol yn fawr ac yn groesawgar. Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen i ofalu amdanynt, a chaiff ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod mewn cyflwr da. Mae cyfleustodau megis trydan a nwy yn cael eu gwasanaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel. Caiff larymau tân eu gwirio bob wythnos er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol, ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant blynyddol ar wagio'r adeilad os bydd tân. Caiff polisïau iechyd a diogelwch eu hadolygu'n rheolaidd ac maent ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r cartref wedi gwneud cais i allu adnewyddu holl fframiau ffenestri pren y cartref gan ddefnyddio ffenestri gwydr dwbl modern er mwyn rhoi mwy o gysur a diogelwch i'r bobl. Mae'r ffensys a'r dodrefn gardd yn cael eu hadnewyddu ac mae'r gwelyau planhigion yn cael eu tacluso er mwyn i'r bobl allu eistedd y tu allan pan fydd y tywydd yn braf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Caiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau gan fod gan y darparwr drefniadau sefydliadol a threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cydymffurfio â'r rheoliadau drwy gynnal adroddiadau ansawdd ddwywaith y flwyddyn sy'n casglu barn y bobl, eu teuluoedd a'r staff gofal mewn perthynas â'r gwasanaeth. Mae'r adroddiad ansawdd yn adolygu dangosyddion gofal fel materion iechyd a diogelwch a chyflwr amgylcheddol y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod safonau gofal da yn cael eu cynnal. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a bod yr hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rôl ar gael iddo. Gwelsom fod y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i'r bobl yn cyd-fynd â dogfen Datganiad o Ddiben y cartref.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o staff profiadol sy'n meddu ar sgiliau priodol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant gorfodol a sesiynau goruchwylio rheolaidd i'w cefnogi yn eu rôl. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-aelodau o staff sy'n hawdd mynd atynt ac ar gael. Mae cofnodion y staff gofal yn dangos bod y gwiriadau cyflogi angenrheidiol yn cael eu cynnal i sicrhau eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Mae rotas gwaith y staff yn dangos bod staff rheolaidd yn darparu parhad gofal i'r bobl. Pan gaiff staff asiantaeth eu defnyddio, mae'r gwasanaeth yn ceisio defnyddio'r un rhai er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd ag anghenion gofal y bobl.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*